Cyfraddau cyfraniadau

Mae cyfradd aelodaeth Usdaw yn un o'r rhai isaf yn y mudiad undebau llafur, yn darparu amrediad ardderchog o fuddion a gwasanaethau proffesiynol am ychydig geiniogau'n unig y dydd.

I gael rhagor o wybodaeth neu i ymuno ag Usdaw:

- Cysylltwch â'ch cynrychiolydd Usdaw
- Cysylltwch â'ch swyddfa Usdaw leol
  0800 030 80 30
- Ewch at ein gwefan
  www.usdaw.org.uk

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar y dyddiad argraffu – Gorffennaf 2017.

Ydych chi'n Teimlo'n…

Unig?

Ansicr ynghylch eich hawliau yn y gwaith?

Hoffech chi gael help i ddysgu Saesneg?

Gall Usdaw helpu – ni yw eich undeb llafur.

Usdaw
Union of Shop, Distributive and Allied Workers

Usdaw
Union of Shop, Distributive and Allied Workers

Cyhoeddwyd gan Usdaw
188 Wilmslow Road
Manceinion M14 6LJ

Welsh

Chwe rheswm da pam y dylech chi umuno ag Usdaw – eich undeb llafur.

Chwe rheswm da pam y dylech chi umuno ag Usdaw...

❶ Rydyn ni'n helpu ein haelodau i ddysgu am eu hawliau yn y gwaith. Er enghraifft, a wyddech chi fod gennych hawl i:

- Isafswm cyflog ar gyfer oedolion. Mae hwn yn codi bob blwyddyn ar ers 1 Ebrill 2017 mae wedi bod:

  £7.50 yr awr ar gyfer 25 oed a throsodd

  £7.05 yr awr ar gyfer 21-24 oed

  £5.60 yr awr ar gyfer 18-20 oed

  £4.05 yr awr ar gyfer 16-17 oed

- 28 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn (ar gyfer rhywun yn gweithio 5 niwrnod yr wythnos).

- 11 awr o orffwys bob diwrnod.

- Mae gan y mwyafrif o weithwyr hawl i dâl salwch ar ôl tri diwrnod o salwch.

❷ Rydyn ni'n cyflwyno problemau ein haelodau i reolwyr ac yn eich cynrychioli mewn gwrandawiadau disgyblu.

❸ Rydyn ni'n rhoi cyngor a chynrychiolaeth AM DDIM i'n haelodau os digwydd damwain yn y gwaith, diswyddo annheg a gwahaniaethu.

❹ Gallwn ni helpu ein haelodau i gyrchu hyfforddiant AM DDIM ar amrediad eang o bynciau gan gynnwys Saesneg, Mathemateg a sgiliau cyfrifiadurol.

❺ Rydyn ni'n ymgyrchu yn erbyn hiliaeth ac yn hyrwyddo triniaeth gyfartal ar gyfer yr holl weithwyr.

❻ Rydyn ni'n gweithio i wella tâl ein haelodau a'u bywyd yn y gwaith.

- Gall pawb ymuno ag undeb llafur.
- Mae gennych hawl gyfreithiol i ymuno ag undeb llafur.
- Does dim rhaid ichi roi gwybod i'ch cyflogwr eich bod yn aelod o undeb llafur.
- Mae'n anghyfreithlon i rywun wahaniaethau yn eich erbyn am fod yn aelod o undeb llafur.